# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach

**DYDDIAD Y CYFARFOD:** 11 Mawrth 2024

**TEITL:** Gwasanaethau Arbenigol Porth Cynnal (Plant ac Oedolion)
ADRODDIAD RHEOLI PERFFORMIAD Y GWASANAETH ADOLYGU ANNIBYNNOL
Adroddiad Rheoli Perfformiad
CHWARTER 2 2023 - 2024

**PWRPAS YR ADRODDIAD:** Monitro cynnydd plant sy'n derbyn gofal trwy waith craffu Swyddogion Adolygu Annibynnol o'u cynlluniau a'u lleoliadau yn ystod ail chwarter 2023/2024. Mae'r wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau fel Rhieni Corfforaethol.

**Y RHESWM MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:**
Sicrhau bod yr Awdurdod Lleol a'r Aelodau yn gallu cyflawni eu dyletswyddau fel Rhieni Corfforaethol.

## Cefndir

Atodir Adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 2 2023/2024.

Caiff adroddiadau chwarterol eu rhoi gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach fel rhan o'r ystyriaeth barhaus o'r pwnc i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau fel y Rhiant Corfforaethol.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu, ac mae'n cynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod y cyfarfod adolygu, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn llunio barn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd Cynllun Gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gall argymell newidiadau i'r Cynllun Gofal.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol i gael cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn bod angen gweithredu ar gyfer 2 person ifanc yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc ac, os oes, gallai gyfeirio’r achos i CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn.

**Y sefyllfa bresennol**

**CRYNODEB O'R PWYNTIAU ALLWEDDOL;**

- Ar ddiwedd Chwarter 2, roedd 130 o blant/pobl ifanc yn derbyn gofal o'i gymharu â 125 ar ddiwedd Chwarter 1.
- Cafodd 88 o blant eu hadolygu yn ystod y chwarter hwn o'i gymharu â 95 yn y chwarter blaenorol. Adolygwyd 95.5% o blant o fewn yr amserlen statudol.
- Roedd 7 plentyn wedi gadael gofal yn y chwarter hwn o'i gymharu ag 20 yn Chwarter 1. Y rhesymau dros y nifer uchel yn Chwarter 1 oedd bod nifer uchel o orchmynion gofal wedi’u dirymu. Cafodd 2 plentyn eu mabwysiadu yn y chwarter hwn, dychwelodd 3 adref i'w teuluoedd a symudodd 2 berson ifanc ymlaen i lety â chymorth neu ddarpariaeth byw'n annibynnol neu i leoliad cysylltu bywydau.
- Y ddarpariaeth lleoliad ar gyfer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn oedd bod 20 mewn gofal maeth Awdurdod Lleol yn y sir, a 1 mewn lleoliadau gofal maeth yr Awdurdod Lleol y tu allan i'r sir, 15 mewn lleoliadau gofalwyr sy'n berthnasau yn y sir a 5 y tu allan i'r sir, 2 mewn Asiantaeth Faethu Annibynnol yn y sir a 5 y tu allan i'r sir, cafodd 7 plentyn eu lleoli gyda rhieni a chafodd 21 eu lleoli mewn darpariaeth gofal preswyl y tu allan i'r sir. Roedd 2 mewn lleoliad Preswyl Mam a Baban, roedd 1 mewn llety â chymorth/byw'n annibynnol ac roedd 2 mewn lleoliadau eraill.
- Ar gyfer plant a adolygwyd yn y chwarter hwn, y cynlluniau parhad oedd yn eu lle oedd: 30 o blant yn aros mewn gofal maeth tymor hir, 18 o blant yn cael gofal gan berthnasau, 5 plentyn mewn lleoliad gyda rhiant, 10 o blant yn cael eu tracio’n gyfochrog, 4 plentyn yn cael eu mabwysiadu, 6 plentyn mewn gofal preswyl, 1 plentyn yn cael ei gefnogi i ail-fyw gyda’i rieni, 1 plentyn o dan gynllun Gwarcheidwaeth Arbennig a 2 o blant mewn lleoliad byw’n annibynnol.
- Roedd 41 o blant yn derbyn gofal o dan statws cyfreithiol Gorchymyn Gofal Llawn, 26 o dan Orchymyn Gofal Dros Dro, 2 o dan Orchymyn Lleoli, ac 19 o dan Adran 76.
- O'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn, cafodd 95.5% o’r plant ymweliad statudol. Roedd hyn yn cymharu ag 100% yn Chwarter 1.
- Cofnodwyd bod 27.3% o'r Cynlluniau Gofal a Chymorth wedi’u sefydlu yn yr adolygiad cyntaf o'i gymharu â'r 54.5% a oedd ar waith yn Chwarter 1. Roedd y ganran isel y chwarter hwn oherwydd problemau staffio yn y Tîm Gofal

Wedi'i Gynllunio oedd wedi atal y cynlluniau rhag cael eu cwblhau mewn pryd. Roedd sylw yn cael ei roi i'r materion staffio ar hyn o bryd.

- Nododd 88 o adolygiadau fod safbwyntiau diwylliannol y person ifanc wedi cael eu bodloni.
- Cafodd 55 o bobl ifanc eu lleoli gyda Gofalwyr Maeth Lleol oedd yn gallu siarad yr un iaith â nhw.
- Nododd 6 adolygiad fod y person ifanc yn blentyn heb fod yng nghwmni oedolyn a chafodd ei roi mewn lleoliad gofal nad oedd yn bodloni ei anghenion iaith gyntaf. Roedd cyfieithydd yn yr adolygiad er mwyn i'r person ifanc allu cyfrannu'n briodol.
- Cydnabuwyd mewn 49 o adolygiadau bod anghenion crefyddol y person ifanc yn cael eu bodloni, ac ar gyfer 37 adolygiad pellach nid oedd yn hysbys a oedd yr anghenion wedi'u bodloni neu beidio.
- Cadarnhawyd bod Awdurdod Dirprwyedig wedi'i sefydlu ar gyfer 59 o blant a adolygwyd, gyda 9 adolygiad yn nodi nad oedd hyn eto wedi'i wneud eto. Ni wyddys a oedd hyn wedi digwydd mewn 6 adolygiad, a gwnaeth 14 adolygiad arall gofnodi nad oedd yn berthnasol i'r person ifanc.
- Roedd gan 63.6% o'r plant a adolygwyd yn y chwarter hwn Gynllun Parhad yn ei le a oedd wedi'i gytuno erbyn yr ail adolygiad, os na chynlluniwyd i ddychwelyd adref.
- Canran y plant (â digon o grebwyll) sy'n deall y rheswm dros dderbyn gofal oedd 90.3%.
- Canran y plant â digon o grebwyll oedd wedi cymryd rhan neu a gafodd eu hymgynghori ynghylch eu hadolygiad oedd 97.1%
- Canran y plant a gafodd wybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli oedd 83.3%
- Nifer a chanran y rhieni roedd y Gweithiwr Cymdeithasol wedi ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn yr adolygiad oedd 98.7%.
- Nifer a chanran y cynlluniau lleoli (gan gynnwys darpariaeth addysg ac iechyd) yr aseswyd eu bod yn bodloni anghenion plant/pobl ifanc sy'n derbyn gofal oedd 97.7%.
- Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedran ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl cael eu derbyn i ofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd yn ystod y chwarter hwn oedd 98.1%.
- Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal a dderbyniodd Asesiadau Iechyd yn unol â'r gofynion statudol oedd 95.4%
- Cynhaliwyd 23 o Gynlluniau Llwybr yn ystod y chwarter hwn. Cynhaliwyd 91.3% o Adolygiad o Gynlluniau Llwybr o fewn y terfynau amser.

- Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol / Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig oedd 100% yn ystod y chwarter hwn.
- Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer eu cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn oedd 91.3% ond dim ond 39.1% a gofnododd fod y person ifanc wedi mynychu eu hadolygiad.
- Mewn 95.7% adolygiad cadarnhawyd bod y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam.**
Naddo.

**Crynodeb:**
Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir gyda phlant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion.

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol. |
| **Cydweithio:** | Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod. |
| **Cynnwys:** | Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a cheisio eu safbwyntiau; ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid. |
| **Atal:** | Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu. |
| **Integreiddio:** | Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt. |

**<u>ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):</u>**
Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch gyda'r Awdurdod Lleol.

**<u>RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):</u>**
Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**<u>Enw Cyswllt</u>:** Audrey Somerton-Edwards

**<u>Swydd</u>:** Swyddog Arweiniol Corfforaethol: (Plant a Theuluoedd)

**<u>Dyddiad yr Adroddiad</u>:** 8 Ionawr 2024

**<u>Acronymau:</u>**
IRO - Swyddog Adolygu Annibynnol
LAC - Plant sy'n Derbyn Gofal
CAFCASS - Gwasanaeth Cynghori a Chymorth i Blant a Theuluoedd
APR - Cofnodion Gweithredu a Chynnydd
PEP - Cynllun Addysg Bersonol
PI - Dangosyddion Perfformiad
CAMHS - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
NEET – Heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
PRU - Uned Cyfeirio Disgyblion

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Gwasanaeth Diogelu

## Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol

## Chwarter 2: 1 Gorffennaf 2023 – 30ain Medi 2023

...yn gofalu i wneud gwahaniaeth
...taking care to make a difference

## CYNNWYS

**TUDALEN:**


| | | |
|---|---|---|
| **ADRAN UN:** | **CYFLWYNIAD** | **3** |
| **ADRAN DAU:** | **CYNLLUNIO GOFAL** | **4** |
| **ADRAN TRI:** | **YMGYNGHORI A CHYFRANOGI** | **22** |
| **ADRAN PEDWAR:** | **PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU** | **25** |
| **ADRAN PUMP:** | **GWERTHUSO** | **25** |
| **ADRAN CHWECH:** | **CYNLLUNIAU LLWYBR** | **26** |
| **ADRAN SAITH:** | **GOFAL SEIBIANT BYR RHEOLAIDD** | **28** |
| **ADRAN WYTH:** | **GOFAL SEIBIANT BYR** | **29** |

## ADRAN UN: CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn darparu’r wybodaeth a gasglwyd gan y Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol er mwyn monitro perfformiad a sicrhau ansawdd y gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, plant sy'n gadael gofal, plant sydd mewn lleoliadau preswyl, a phlant sy'n derbyn gofal seibiant a seibiannau byr. Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar y ffurflenni monitro sy’n cael eu cwblhau gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn dilyn pob cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn ynghyd â gwybodaeth arall am berfformiad a gedwir gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.

## MEINCNODI

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y mesurau a’r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal ar adeg eu cyfarfod adolygu.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a’r hyn a fynegir yn ystod y cyfarfod adolygu, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn llunio barn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a bydd yn tynnu sylw rheolwyr at unrhyw ymarferion gwael.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol i gael cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Barnwyd bod angen gweithredu ar gyfer 2 blentyn/person ifanc yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc ac, os oes, gallai gyfeirio’r achos i CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn.

## ADRAN DAU

## CYNLLUNIO GOFAL

**1. Y Prif Ffigurau ar gyfer Chwarter 2:**

| Mae'r tabl a'r siart isod yn rhoi cyfanswm y data plant sy'n derbyn gofal ar ddiwedd pob chwarter gan ddechrau gyda'r chwarter diweddaraf. | |
|---|---|
| 30 Medi 2023 | 130 |
| 30 Mehefin 2023 | 125 |
| 31 Mawrth 2023 | 132 |
| 31 Rhagfyr 2022 | 122 |
| 30 Medi 2022 | 112 |
| 30 Mehefin 2022 | 105 |
| 31 Mawrth 2022 | 100 |
| 31 Rhagfyr 2021 | 97 |
| 30 Medi 2021 | 91 |




**2. Nifer a chanran yr adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol.**

<u>Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 95.5%</u>

Adolygwyd 88 o blant yn ystod y chwarter hwn.

- Cynhaliwyd 84 (95.5%) cyfarfod adolygu plant sy’n derbyn gofal o fewn y terfynau amser statudol.

- Cynhaliwyd 4 (4.5%) cyfarfod adolygu plant sy’n derbyn gofal y tu allan i’r gofynion statudol; cofnodwyd y rhesymau fel a ganlyn: -

    - Bu oedi o ran adolygiad 1 plentyn oherwydd newid yn y Swyddog Diogelu ac Adolygu Annibynnol.

- Yn achos 1 plentyn arall roedd hyn oherwydd gwyliau ysgol / argaeledd gweithwyr proffesiynol yn ogystal â'r angen i gynnal ymweliad ar y cyd â'r rhiant.
- Marwolaeth perthynas agos oedd y rheswm dros yr oedi ar gyfer 1 plentyn arall ac roedd yr adolygiad ar gyfer 1 plentyn ychwanegol y tu allan i'r terfynau amser oherwydd oedi cyn i'r asiantaethau gael gwybod am newid yn statws cyfreithiol y plentyn.

| | Gorff-Medi 2023 | Ebrill-Meh 2023 | Ion-Maw 2023 | Oct-Rhag 2022 | Gorff-Medi 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter | 88 | 95 | 101 | 116 | 63 |
| Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser | 84 | 90 | 95 | 99 | 56 |
| Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd y tu allan i'r terfynau amser | 4 | 5 | 6 | 17 | 7 |




## 3. Oed a rhyw plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:



**4. Anghenion Diwylliannol, Crefyddol ac Iaith**

Nododd 88 (100.0%) adolygiad fod safbwyntiau diwylliannol y person ifanc yn cael eu bodloni.
Cydnabuwyd mewn 49 o adolygiadau bod anghenion crefyddol y person ifanc yn cael eu bodloni ac ar gyfer 37 adolygiad pellach nid oedd yn hysbys a oedd yr anghenion wedi'u bodloni neu beidio.
Roedd angen cyfieithydd a chafodd cyfieithydd ei ddarparu ar gyfer pob un o'r 6 adolygiad. Yn achos 1 adolygiad arall gofynnwyd am gyfieithydd ond fe'i gwrthodwyd gan y person ifanc, gan ei fod/ ei bod yn gallu siarad Saesneg rhagorol.

**5 Dinasyddiaeth**

Cofnododd 81 adolygiad fod y plentyn / person ifanc yn Ddinesydd y Deyrnas Unedig, gyda 7 adolygiad yn nodi nad oedd y plentyn / person ifanc yn Ddinesydd y Deyrnas Unedig.

Roedd 6 plentyn / person ifanc yn blant ar eu pennau eu hunain sy’n ceisio lloches, nid oedd gan yr un o'r plant / pobl ifanc hyn Gynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr EU wedi’i sefydlu.
Roedd gan 1 plentyn / person ifanc arall nad oedd yn Ddinesydd y Deyrnas Unedig Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

Cofnododd pob un o'r 6 adolygiad nad oedd cais wedi'i wneud ar gyfer Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr EU; fodd bynnag cofnododd 3 adolygiad fod y person ifanc yn cael ei gefnogi yn hyn o beth.

**6 Natur lleoliadau’r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:**

| **Math o Lleoliad** | **Yn y Sir** | **Tu Allan i'r Sir** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol | 20 | 1 | 21 |
| Gofalwyr sy’n Berthnasau | 15 | 5 | 20 |
| Gofalwyr Asiantaeth Faethu Annibynnol | 2 | 5 | 7 |
| Lleoli â Rhieni | 4 | 3 | 7 |
| Arall | 1 | 1 | 2 |
| Lleoli â Theulu | 3 | 4 | 7 |
| Preswyl | | 21 | 21 |
| Mabwysiadu | | | |
| Preswyl Mamau a Babanod | | 2 | 2 |
| Gofalwyr Maeth Asiantaeth Faethu Annibynnol ar gyfer Rhieni a Babanod | | | |
| Ysbyty | | | |
| Llety â Chymorth/Byw'n Annibynnol | | 1 | 1 |
| | **45** | **43** | **88** |




| |
|---|
| Roedd 55 o bobl ifanc a adolygwyd wedi cael eu lleoli gyda gofalwyr oedd yn siarad eu hiaith eu hunain. |
| Nododd 6 adolygiad fod y person ifanc yn blentyn heb fod yng nghwmni oedolyn a chafodd ei roi mewn lleoliad gofal oedd heb fodloni ei anghenion iaith gyntaf. Roedd cyfieithydd yn yr adolygiad er mwyn i'r person ifanc allu cyfrannu'n briodol. |

## 7. Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:

| Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd | |
|---|---|
| Gorchymyn Gofal Llawn | 41 |
| Gorchymyn Gofal Dros Dro | 26 |
| Gorchymyn Lleoli | 2 |
| Adran 76 | 19 |
| **Cyfanswm** | **88** |




**Awdurdod Dirprwyedig**
Cadarnhawyd bod awdurdod dirprwyedig wedi'i sefydlu ar gyfer 59 o blant a adolygwyd, gydag 9 adolygiad yn nodi nad oedd hyn wedi'i wneud eto.  Nid wyddys a oedd hyn wedi digwydd mewn 6 adolygiad, gyda 14 adolygiad arall yn cofnodi nad oedd yn berthnasol i'r achos.

### 8. Y rhesymau pam bod y plant a adolygwyd wedi gadael gofal

| Cyfnod | Y nifer sydd wedi gadael gofal | Y rheswm droes adael gofal | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mabwysiadu | Dychwelyd adref at y teulu | Pan dwi'n barod | Dirymu'r Gorchymyn Gofal | Llety â Chymorth / Byw'n Annibynnol/ Cysylltu Bywydau |
| **Gorff-Medi 2023** | **7** | 2 | 3 | 0 | 0 | 2 |
| **Ebr - Meh 2023** | **20** | 0 | 2 | 1 | 15 | 2 |
| **Ion - Maw 2023** | **3** | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| **Hyd - Rhag 2022** | **8** | 0 | 6 | 1 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **38** | **3** | **11** | **2** | **15** | **7** |



**9. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal sydd â Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig.**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 98.9%

- Cofnododd 87 (98.9%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal fod Gweithiwr Cymdeithasol cymwysedig yn gweithio gyda'r plentyn.

- Cofnododd 1 (1.1%) adolygiad Plentyn sy'n Derbyn Gofal bod y plentyn wedi'i ddyrannu i'r tîm heb fod unrhyw weithiwr cymdeithasol wedi'i nodi.

**10. Nifer a chanran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal a adolygwyd o fewn y terfynau amser gofynnol.**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 95.5%

- Derbyniodd 84 (95.5%) o blant sy'n derbyn gofal ymweliadau gan Weithiwr Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol.




**11. Nifer a chanran y Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6) a oedd wedi'u sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad cyntaf a'r cynlluniau cyfredol a oedd ar gael ar gyfer yr adolygiad.**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 27.3%

- Daeth 11 o blant yn blant sy'n derbyn gofal yn ystod y chwarter hwn; cofnodwyd mewn 3 (27.3%) cyfarfod adolygu fod gan y plentyn / person ifanc Gynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad ei leoliad. Nid oedd y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad ar gyfer y 8 plentyn / person ifanc arall.




- Cofnododd 63 (71.6%) adolygiad fod y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) yn gyfredol.

- Nododd y Swyddog Adolygu Annibynnol fod angen diweddaru cofnodion y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) ar gyfer 25 o blant. Nodwyd bod angen diweddaru'r Cynllun Gofal a Chymorth o hyd ar gyfer 14 plentyn/person ifanc.

**12. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal sydd â Chynllun Parhad wedi'i sefydlu erbyn yr ail adolygiad os na chynlluniwyd ar gyfer dychwelyd adref.**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 63.6%

- Cynhaliwyd 11 ail adolygiad yn ystod y chwarter hwn, a chofnododd 7 (63.6%) adolygiad fod Cynllun Parhad wedi'i gytuno. Mae hyn yn cymharu ag 62.5% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 4 (4.5%) adolygiad yn ystod y cyfnod hwn cofnododd y Swyddog Adolygu Annibynnol bryderon ynghylch cynnydd y Lleoliad/Cynllun Gofal a Chymorth/ Cynllun Parhad.

  Roedd natur y pryderon fel a ganlyn: -

  - Dim Cynllun Gofal ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru er y byddai'r achos yn mynd gerbron llys.
  - Nid oes cynllun clir ar gyfer y person ifanc, dywedwyd bod y Gweithiwr Cymdeithasol yn 'chwilio am leoliad'. Roedd y Person Ifanc yn aros gyda pherthynas ar hyn o bryd. Nid oedd asesiad wedi'i wneud o'r sefyllfa.
  - Nid yw'r Gweithiwr Cymdeithasol wedi cwblhau gwaith papur ar gyfer Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig oherwydd cyfyngiadau amser a llwyth gwaith. Nid ydyw wedi rhoi gwybod i'r Swyddog Adolygu Annibynnol.
  - Cafodd y person ifanc ei leoli gyda gofalwyr maeth tymor byr a'r cynllun oedd symud y person ifanc i ofalwyr maeth newydd yn yr hirdymor. Mae hyn wedi'i nodi yn yr adolygiadau blaenorol ond nid yw wedi'i ddatrys eto. Cafodd y person ifanc wybod am y lleoliad a nodwyd ym mis Chwefror ond ni

symudodd i'r lleoliad hwnnw. Mae hyn wedi bwrw'r person ifanc oddi ar ei echel ac mae tanseilio ei berthynas â'r gweithiwr cymdeithasol a ddyrannwyd.




## 13. Faint o Amser Mewn Gofal:




## 14: Natur y Cynlluniau Parhad:



**15. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd ofal seibiant gan rywun heblaw eu prif ofalwyr**

- Mewn 1 (1.1%) adolygiad nodwyd bod y plentyn/person ifanc yn cael gofal seibiant byr i ffwrdd o'i brif ofalwr; nododd yr adolygiad o blant sy'n derbyn gofal hyn fod y gofal seibiant yn bodloni anghenion y plentyn/ person ifanc.

**6. Nifer a chanran y bobl ifanc gymwys sydd â Chynllun Llwybr yn unol â'r gofynion.**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 36.4%

- Mewn 2 (36.4%) adolygiad o berson ifanc cofnodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Llwybr wedi'i sefydlu a bod Ymgynghorydd Personol wedi'i benodi ar ei gyfer.
- Mewn 7 (63.6%) adolygiad cofnodwyd nad oedd gan y person ifanc Gynllun Llwybr wedi'i sefydlu.
- Nododd 8 o'r adolygiadau uchod fod Ymgynghorydd Personol wedi'i benodi ar gyfer y bobl ifanc, fodd bynnag, nododd 3 adolygiad fod Ymgynghorydd Personol heb ei benodi eto.




**17 Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal (o oedran a lefel dealltwriaeth briodol) sy'n deall y rhesymau pam eu bod yn cael eu gofalu amdanynt**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 90.3%

- Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 72 o blant/pobl ifanc oherwydd barnwyd nad oedd 16 o blant / pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i ddeall pan eu bod yn derbyn gofal.

- Roedd 65 (90.3%) yn y grŵp hwn yn dangos rhyw fath o ddealltwriaeth pam eu bod yn derbyn gofal gan rywun heblaw am eu teuluoedd o'i gymharu â 93.2% yn y chwarter blaenorol.

- Nododd 7 (9.7%) adolygiad fod y gwaith Taith Bywyd angen ei wneud gyda'r plentyn/person ifanc i'w helpu i ddeall y rhesymau pam ei fod yn derbyn gofal.

**18. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal (fel y bo'n briodol o ran eu hoedran a'u crebwyll) a oedd yn deall eu Cynllun Gofal a Chymorth.**

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 69 o blant/pobl ifanc oherwydd barnwyd nad oedd 19 o blant / pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Roedd 57 (82.6%) yn y grŵp hwn yn dangos dealltwriaeth o'r hyn a oedd yn eu Cynlluniau Gofal a Chymorth (rhan 6).

- Nododd 12 (17.4%) adolygiad fod angen rhannu hwn gyda'r plant/pobl ifanc.

**19. Mesur Cenedlaethol 33: Nifer a chanran yr achosion o symud plant sy'n derbyn gofal.**

- Mewn 10 (11.4%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi symud lleoliad yn ystod y chwarter hwn o'i gymharu â (17.9%) yn y chwarter blaenorol.

  Y rhesymau dros newid y lleoliad oedd:

  - Roedd 1 person ifanc wedi symud i leoliad yn nes at Geredigion.
  - Bu rhaid i frawd a chwaer a oedd wedi'u lleoli gyda gofalwyr gwahanol adael oherwydd bod y ddau ofalwr wedi rhoi rhybudd. Roedd y ddau wedi symud at ofalwyr maeth gwahanol am gyfnod byr, tra bo aelodau gwahanol o'r teulu yn cael eu hasesu. Yn dilyn hynny cafodd y ddau eu symud yn llwyddiannus at berthnasau.
  - Yn achos person ifanc arall, rhoddodd gofalwyr rybudd o ran eu lleoliad a gwnaed symudiad wedi'i gynllunio i leoliad preswyl.
  - Cafodd 1 person ifanc symudiad wedi'i gynllunio i leoliad cam i lawr fel rhan o'i asesiad.
  - Roedd lleoliad addas yn dal i gael ei nodi ar gyfer 1 person ifanc a oedd wedi gadael lleoliad blaenorol.
  - Cafodd 1 person ifanc arall symudiad heb ei gynllunio i'w ofalwyr presennol ac roedd angen cadarnhad a oeddent yn fodlon darparu lleoliad 'Pan fyddaf yn Barod', ar ôl i'r gofalwyr blaenorol benderfynu dod â'u lleoliad i ben.
  - Symudodd 1 person ifanc i leoliad gyda rhiant arall.
  - Symudodd 1 person ifanc i leoliad preswyl o fewn yr un cwmni. Nodwyd bod y lleoliad yn fwy priodol i fodloni anghenion y person ifanc.

- Symudodd 1 person ifanc o leoliad preswyl yn Lloegr i leoliad preswyl arall a oedd yn nes at ei deulu a Cheredigion.

Roedd y symudiadau yn achos 4 o’r plant heb eu cynllunio, ni chofnododd yr un o'r adolygiadau fod Cyfarfod Sefydlogrwydd wedi'i gynnal o fewn 6 wythnos i symud lleoliad.

**20 Nifer a chanran y cynlluniau lleoli (gan gynnwys darpariaeth addysg ac iechyd) yr aseswyd eu bod yn bodloni anghenion plant sy’n derbyn gofal.**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 97.7%

- Cofnodwyd bod 86 (97.7%) o gynlluniau lleoli/gofal a chymorth yn bodloni anghenion plant / pobl ifanc o’i gymharu â 95.8% yn y chwarter blaenorol.

- Cofnododd 2 (2.3%) adolygiad nad oedd y lleoliad/gofal a chymorth yn bodloni anghenion y plentyn/person ifanc. Y rhesymau a gofnodwyd oedd: -

  - Nodwyd bod 1 person ifanc yn NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) ac felly mynegwyd pryder gan nad oedd lleoliad addas parhaol ar gael.
  - Yn achos person ifanc arall, roedd lleoliad blaenorol wedi methu ac roedd angen cadarnhad y gallai'r lleoliad presennol gynnig lleoliad 'Pan fyddaf yn Barod'.

**21. Nifer a chanran y pryderon diogelu a nodwyd mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal yn ystod y chwarter hwn**

- Mewn 6 (6.8%) adolygiad o blant sy’n derbyn gofal nodwyd pryderon diogelu ar gyfer y person ifanc; cadarnhawyd bod y pryderon yn cael sylw.

**22. Nifer y plant sy'n derbyn gofal a enwir ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.**

- Nodwyd mewn 8 (9.1%) adolygiad bod y person ifanc wedi’i enwi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

**23. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd Asesiadau Iechyd yn unol â’r gofynion statudol**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 95.4%

- Roedd gan 83 (95.4%) o’r plant/pobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi cael asesiad iechyd cyfredol erbyn eu hadolygiad o’r gymharu â 96.0% yn y chwarter blaenorol.

- ➢ Cofnodwyd mewn 7 (63.6%) o’r Adolygiadau Cyntaf fod yr Asesiad Iechyd wedi'i gwblhau o fewn 4 wythnos i'r plentyn ddod yn blentyn a oedd yn derbyn gofal.

- ➢ Yn achos 4 (36.4%) adolygiad cyntaf, cofnodwyd nad oedd yr Asesiad Iechyd wedi'i gynnal o fewn 4 wythnos i'r plentyn ddod yn blentyn a oedd yn derbyn gofal. Fodd bynnag, cofnododd 2 o'r adolygiadau hyn fod Asesiad Iechyd wedi'i gwblhau wedi hynny, gyda phlentyn / person ifanc arall yn gadael gofal o fewn cyfnod byr o amser. Roedd un Asesiad Iechyd arall dal heb ei gwblhau.

- ➢ Yn achos 76 (100.0%) adolygiad pellach, cofnodwyd bod Asesiadau Iechyd yn cael eu cynnal bob 6 mis ar gyfer plant o dan 5 oed a phob 12 mis i blant dros 5 oed.

- Gwrthododd 1 (1.1%) plentyn/person ifanc sy'n derbyn gofal gael asesiad iechyd wedi'i gwblhau ac felly fe'i tynnwyd allan o'r hafaliad.




| |
|---|
| **Sylw:** Mae oedi yn digwydd yn aml oherwydd na chaiff gwybodaeth ei rhannu am blant newydd yn symud i leoliad, bod lleoliad yn newid neu fod yr Awdurdod Lleol yn dod â lleoliadau i ben. |

**24. Canran y plant a oedd wedi cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau derbyn gofal**

<u>Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 72.7%</u>

**Wedi cofrestru gyda deintydd**

Mae'r data ar gyfer cofrestru plant/pobl ifanc gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt ddechrau derbyn gofal yn ymwneud â 11 plentyn/person ifanc.

- Mewn 8 (72.7%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau yn y lleoliad.

- Mewn 3 (27.3%) adolygiad nodwyd bod y plentyn/person ifanc heb gofrestru eto gyda deintydd.

**Wedi cofrestru gyda deintydd**

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud ag 77 o blant / pobl ifanc oherwydd diystyriwyd 11 plentyn/ person ifanc a oedd yn cael eu hadolygiad plant sy'n derbyn gofal cyntaf o'r ffigurau uchod er mwyn bodloni gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Roedd 69 (89.6%) o blant a phobl ifanc wedi cofrestru gyda deintydd. Mae hyn yn cymharu â 83.3% yn y chwarter blaenorol.

- Roedd angen i 8 (10.4%) plentyn/person ifanc gofrestru gyda deintydd.

**Sylw**: Mae pob plentyn wedi cael ei atgyfeirio / cofrestru gyda deintydd lleol.

**25. Mesur Cenedlaethol 30: Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedd wedi cael eu gweld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.**

**Wedi cael ei weld gan ddeintydd**

Mae'r data ar gyfer cael ei weld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal yn ymwneud ag 10 plentyn.

- Cofnodwyd mewn 6 adolygiad (60.0%) bod y plentyn/person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.

- Cofnodwyd mewn 4 adolygiad (40.0%) nad oedd y plentyn/person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal. Fodd bynnag, cafodd 1 plentyn ei weld 2 fis cyn iddo ddod yn Blentyn a oedd yn Derbyn Gofal.

**Wedi cael ei weld gan ddeintydd**

<u>Targed a bennwyd 90% - Yr hyn a gyflawnwyd 85.7%</u>

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 71 o blant/pobl ifanc gan fod 17 o blant/pobl ifanc yn iau na 2 oed a/neu'n cael eu hadolygiad o blant sy'n derbyn gofal cyntaf, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau uchod er mwyn bodloni gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Cofnodwyd bod 60 (85.7%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd yn y 12 mis blaenorol o'i gymharu â 80.8% yn y chwarter blaenorol.

- Cofnodwyd nad oedd 10 (14.3%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd.

- Cofnodwyd bod gan 1 (1.4%) person ifanc ffobia deintyddol ac felly cafodd ei dynnu allan o'r hafaliad.




**26. Mesur Cenedlaethol 31: Canran y plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl dechrau yn eu lleoliad.**

- Mewn 19 (95.0%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn wedi cofrestru gyda darparwr gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl dechrau yn y lleoliad.

- Adroddwyd mewn 1 (5.0%) adolygiad bod y cam gweithredu hwn heb ei gymryd adeg yr adolygiad. Nodwyd bod y person ifanc hwn wedi'i gofrestru gyda meddyg teulu lleol pan oedd yn ei leoliad blaenorol ond nad oedd wedi symud i feddyg teulu lleol.

**27. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi cofrestru gyda meddyg teulu.**

<u>Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%</u>

- Roedd 88 (100.0%) o blant a phobl ifanc wedi cofrestru gyda meddyg teulu, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

- Roedd 77 (91.7%) o blant wedi cael eu holl frechiadau.

- Roedd 7 (8.3%) o blant yn hwyr yn cael eu brechiadau. Mae 4 o'r bobl ifanc hyn yn blant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches a chynhigir rhaglen garlam iddynt gan fod ganddynt hanes brechu blaenorol anghyflawn.

Cafodd 4 adolygiad eu diystyru o’r ffigurau oherwydd roedd y rhiant yn gwrthod y brechiadau.

**Sylw:** Mae diweddaru'r sefyllfa o ran imiwneiddio yn broses barhaus er mwyn medru cydymffurfio â'r amserlenni imiwneiddio.

- Mewn 80 (90.9%) adolygiad o blant cofnodwyd bod iechyd meddwl/emosiynol y plant/pobl ifanc wedi cael ei ystyried yn ystod asesiad Iechyd a/neu wrth drafod yn y cyfarfod.

- Mewn 8 (9.1%) o adolygiad cofnodwyd nad oedd y problemau iechyd meddwl wedi cael eu hystyried.

- Mewn 12 (13.6%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal nodwyd bod problem iechyd meddwl gan y person ifanc.

- Cafodd problemau ymddygiad eu nodi ar gyfer 13 (14.8%) o blant/pobl ifanc yn ystod y cyfnod hwn.

**28. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal yr aseswyd eu bod angen cymorth gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gafodd eu hatgyfeirio ac a dderbyniodd asesiad/gwasanaeth.**

- Mewn 2 (2.3%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi cael ei atgyfeirio i CAMHS, a chadarnhawyd mewn 1 o'r 2 adolygiad bod yr atgyfeiriad wedi cael ei dderbyn ar gyfer y plentyn/person ifanc.

**29. Natur y ddarpariaeth addysg:**

Yn ystod y chwarter hwn roedd y plant a'r bobl ifanc a adolygwyd yn y ddarpariaeth addysg ganlynol.

| **Darpariaeth Addysg** | |
|---|---|
| Plant cyn-ysgol | 15 |
| Disgyblion ysgolion gynradd | 33 |
| Disgybl ysgol uwchradd | 26 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU) | 1 |
| Prosiectau eraill - Lleoliad Gwaith Arbenigol | 1 |
| Coleg | 6 |
| Colli addysg | |
| Heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET) | 5 |
| Addysg heblaw yn yr ysgol | |
| Preswyl | |
| Wedi gadael yr ysgol | |
| Tiwtora | 1 |
| Addysg Ddewisol yn y Cartref | |
| Cyflogedig | |
| **Cyfanswm** | **88** |




**30. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal oedran ysgol a oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl dechrau derbyn gofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd.**

<u>Targed a bennwyd 70% - Yr hyn a gyflawnwyd 98.1%</u>

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 58 o blant/pobl ifanc oedran statudol i ddechrau’r ysgol ac felly’n gymwys i gael Cynllun Addysg Personol.

- Roedd gan 52 (98.1%) o blant a phobl ifanc oedran statudol i ddechrau ysgol Gynllun Addysg Personol cyfredol.
    - Mewn 6 (85.7%) adolygiad cofnodwyd bod y Cynllun Addysg Personol wedi’i gwblhau o fewn 20 diwrnod ysgol o fod yn blentyn sy’n derbyn gofal, neu 20 diwrnod gwaith ar ôl newid ysgol, yn unol â’r gofynion.
    - Mewn 46 (100.0%) adolygiad cofnodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Addysg Personol cyfredol.
- Mewn 1 (1.9%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y Cynllun Addysg Personol wedi cael ei gwblhau o fewn y terfynau amser; wedi hynny gadawodd y plentyn / person ifanc ofal o fewn 6 wythnos o ddod yn blentyn a oedd yn derbyn gofal.
- Nid oedd gan 5 plentyn / person ifanc Gynllun Addysg Personol ar waith adeg eu hadolygiad cyntaf ac fe'u tynnwyd allan o'r hafaliad oherwydd eu bod wedi dod yn blant sy’n derbyn gofal ar ddiwedd tymor ysgol haf a'u bod wedi cael eu hadolygu yn ystod gwyliau'r ysgol.  Cafodd Cynlluniau Addysg Personol eu rhoi ar waith ar ôl i'r ysgol ddychwelyd ym mis Medi.

- Roedd gan 14 (23.7%) o blant a phobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol/coleg anghenion dysgu ychwanegol cydnabyddedig.

- Mewn 21 (36.2%) adolygiad daethpwyd i'r casgliad bod y plant/pobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol/coleg yn tangyflawni o ran eu haddysg. Ym mhob un o'r 21 adolygiad cofnodwyd bod y bobl ifanc yn cael cymorth.

- Mewn 8 (61.5%) adolygiad nodwyd bod y ddarpariaeth addysg wedi'i sefydlu ar ddechrau'r lleoliad.

- Mewn 5 (38.5%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y ddarpariaeth addysg wedi'i sefydlu ar ddechrau'r lleoliad.

- Mewn 2 (3.4%) adolygiad cofnodwyd y bu cyfnod pan oedd y plentyn/person ifanc heb fod mewn addysg am gyfnod tra ei fod aros am le mewn ysgol

**31. Mesur Cenedlaethol 32: Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi symud i ysgol arall, ac eithrio trefniadau pontio**

<u>Targed a bennwyd 0% - Yr hyn a gyflawnwyd 3.5%</u>

- Mewn 2 (3.5%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn/person ifanc wedi symud i ysgol arall ac nad oedd yn symud yn dilyn pontio, o'i gymharu ag 0.0% yn y chwarter blaenorol.

**32. Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd eu gwahardd o'r ysgol**

<u>Targed a bennwyd 12% gwaharddiad dros dro –Yr hyn a gyflawnwyd 3.4%</u>
<u>Targed a bennwyd 1% gwaharddiad parhaol – Yr hyn a gyflawnwyd 0.0%</u>

- Mewn 2 adolygiad (3.4%) adroddwyd bod y person ifanc wedi'i wahardd o'r ysgol dros dro yn ystod y cyfnod adolygu. Mae hyn yn cymharu ag 3.1% yn y chwarter blaenorol.

- Ni adroddwyd mewn unrhyw adolygiad (0.0%) bod y person ifanc wedi'i wahardd yn barhaol o'r ysgol, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

Y gwaharddiadau yn ystod y chwarter hwn oedd: -
1 sesiwn - 0.5 diwrnod

## ADRAN TRI

### YMGYNGHORI A CHYFRANOGI

1. **Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a oedd yn ddigon hen ac yn meddu ar ddigon o grebwyll fel bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gallu ymgynghori â hwy neu roeddent yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu.**

Targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 97.1%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 70 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 18 adolygiad nad oedd y plant/pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i fod yn rhan i'r broses ymgynghori, er bod 2 blentyn/person ifanc wedi bod yn bresennol yn eu hadolygiad.

- Cofnodwyd mewn 68 (97.1%) adolygiad fod ymgynghori wedi digwydd.

- Cofnodwyd mewn 2 (2.9%) adolygiad nad oedd ymgynghoriad wedi digwydd

Dadansoddiad o'r ymgynghori

Roedd 29 plentyn/person ifanc yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu ar Teams. Roedd 39 plentyn/person wedi cwblhau papurau ymgynghori wedi siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol a/neu gweithiwyr proffesiynol, rhieni, gofalwyr neu eiriolwyr wedi'u cynrychioli yno.

- Cafodd y Swyddog Adolygu Annibynnol gysylltiad uniongyrchol ag 20 plentyn/person ifanc yn ystod y cyfnod adolygu y tu allan i'r cyfarfod adolygu.

2 **Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a oedd yn gwybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli / Cynllun Ymwelwyr Annibynnol**

Targed a bennwyd 100% - Yn hyn a gyflawnwyd 83.3%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 72 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 16 adolygiad nad oedd y plant/pobl ifanc a adolygwyd yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i gael gwybod am eu hawl i gael Eiriolwr/Cynllun Ymwelydd Annibynnol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Cafodd 60 (83.3%) plentyn/person ifanc wybod am eu hawl i gael Eiriolwr/Cynllun Ymwelydd Annibynnol.

- Ni hysbyswyd 12 (16.7%) o blant / pobl ifanc am eu hawl i gael Eiriolwr / Cynllun Ymwelydd Annibynnol.

**3 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a gafodd wybod am y drefn gwyno**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 90.8%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 65 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 23 adolygiad nad oedd y plentyn/ person ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll, felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Roedd 59 (90.8%) o blant/pobl ifanc yn gwybod am y drefn gwyno o'i gymharu â 95.1% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 6 (9.2%) adolygiad cofnodwyd bod y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ansicr a oedd y plentyn/person ifanc yn gwybod am y broses gwyno neu beidio.

**4 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y rhieni y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn y cyfarfod adolygu.**

Targed a bennwyd 80% - Yr hyn a gyflawnwyd 98.7%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud ag 79 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 9 adolygiad nad oedd y rhieni yn rhan o'r broses adolygu statudol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Cwblhaodd 78 (98.7%) o rieni bapurau ymgynghori neu roeddent wedi cwrdd neu siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol cyn a/neu ar ôl y cyfarfod adolygu, a/neu roeddent wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod adolygu eu hunain, a/neu roedd gweithwyr proffesiynol wedi'u cynrychioli yno.

- Nododd 1 adolygiad (1.3%) nad oedd dim ymgynghori wedi digwydd. Roedd hyn oherwydd amgylchiadau'r teulu ar y pryd.

  Dadansoddiad o'r ymgynghori
  Cafodd papurai ymgynghori eu hanfon ar gyfer pob un o'r 78 o adolygiad.
  Mewn 40 adolygiad cadarnhawyd bod y rhieni'n bresennol neu eu bod wedi siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol dros y ffôn cyn a/neu ar ôl yr adolygiad.

**5 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y gofalwyr maeth y bu i'r Gweithiwr Cymdeithasol ymgynghori â hwy neu a fu'n bresennol yng nghyfarfod adolygu'r plentyn.**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 98.8%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 82 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 8 adolygiad bod y plentyn wedi'i leoli â rhiant neu'n byw'n annibynnol, felly diystyriwyd yr adolygiadau hyn yn y ffigurau.

- Cwblhaodd 81 (98.8%) o ofalwyr maeth bapurau ymgynghori a/neu buont yn bresennol yn yr adolygiadau yn ystod y cyfnod hwn.

- Nododd 1 (1.2%) adolygiad nad oedd ymgynghoriad wedi bod â'r gofalwyr. Roedd hyn oherwydd sefyllfa'r person ifanc adeg yr adolygiad.

**6 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr iechyd a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 88.6%

- Mewn 78 (88.6%) adolygiad cadarnhawyd bod gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.

- Mewn 10 (11.4%) adolygiad adroddwyd nad oedd gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.

**Sylwadau:** Pan fydd pobl ifanc yn byw y tu allan i'r sir, mae'n fwy anodd cael y gweithwyr iechyd proffesiynol i fynychu

**7. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr ysgol a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 86.4%

- Mewn 57 (86.4%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal roedd rhywun o'r ysgol yn bresennol neu wedi darparu adroddiad ysgrifenedig o'i gymharu â 81.4% yn y chwarter blaenorol.

- Cofnododd 9 (13.6%) o'r adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal nad oedd unrhyw gynrychiolydd ysgol nac adroddiad ysgrifenedig.

**8. Dangosydd perfformiad lleol: Nifer a chanran y dogfennau adolygiad o blant sy'n derbyn gofal a gwblhaodd y Gweithiwr Cymdeithasol cyn yr adolygiad.**

Targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 44.3%

- Mewn 39 (44.3%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal cadarnhawyd bod y gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau'r ddogfen adolygu cyn y cyfarfod adolygu o'i gymharu â 49.5% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 49 (55.7%) adolygiad o blant sy'n derbyn gofal cadarnhawyd nad oedd y ddogfen adolygu wedi'i chwblhau gan y gweithiwr cymdeithasol cyn yr adolygiad.

## ADRAN PEDWAR:
## PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU

Gwnaeth y Swyddog Diogelu ac Adolygu Annibynnol roi'r Protocol Datrys Materion ar waith ar gyfer un person ifanc yn ystod y cyfnod hwn.

Cynhaliwyd 4 adolygiad canol cyfnod yn ystod y cyfnod hwn a lle'r oedd angen roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cynnal adolygiadau yn gynharach pan oedd pryderon.

## ADRAN PUMP

## GWERTHUSO

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.

## ADRAN CHWECH

## CYNLLUNIAU LLWYBR

### Ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed nad ydynt yn blant sy'n derbyn gofal/pobl ifanc dros 18 oed sydd wedi gadael gofal

Cynhaliwyd 23 Adolygiad o Gynlluniau Llwybr yn ystod y chwarter hwn.

**1 Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau o Gynlluniau Llwybr a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser.**

- Cynhaliwyd 21 (91.3%) o Adolygiadau o Gynlluniau Llwybr o fewn y terfynau amser o'i gymharu â 82.4% yn y chwarter blaenorol.
- Cynhaliwyd 2 (8.7%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr y tu allan i'r terfynau amser. Roedd y rhesymau a gofnodwyd fel a ganlyn: -
  - ➢ Aildrefnwyd 2 adolygiad oherwydd argaeledd y Swyddog Adolygu Annibynnol / Ymgynghorydd Personol.

**2 Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl Ifanc ag Ymgynghorydd Personol /Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig**

- Ym mhob un o'r 23 (100%) adolygiad nodwyd bod gan yr holl bobl ifanc Ymgynghorydd Personol a/neu Weithiwr Cymdeithasol dynodedig.

**3 Dangosydd Perfformiad: Canran y Cofnodion o'r Adolygiad o Gynlluniau Llwybr a oedd wedi'u cwblhau erbyn y cyfarfod**

- Roedd y Cofnod Adolygu wedi'i gwblhau ar gyfer 18 (78.3%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr o'i gymharu ag 94.1% yn y chwarter blaenorol.
- Mewn 5 (21.7%) adolygiad adroddwyd nad oedd y Cofnod o'r Adolygiad wedi'i gwblhau adeg yr adolygiad.

**4 Dangosydd perfformiad: Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y cyfarfod adolygu**

- Cadarnhawyd mewn 21 (91.3%) adolygiad y bu'r bobl ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu a/neu fod rhywun wedi'u cynrychioli yno.
- Nodwyd mewn 2 (8.7%) adolygiad fod barn y plentyn/person ifanc heb gael ei chynrychioli yn yr adolygiad a/neu heb fod yn bresennol yn yr adolygiad.

**5 Dangosydd perfformiad: Canran y bobl Ifanc a oedd yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu**

- Mewn 9 (39.1%) adolygiad cofnodwyd y bu'r person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu.

- Mewn 14 (60.9%) adolygiad cofnodwyd na fu'r person ifanc yn bresennol yn yr adolygiad.

**6 Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr oedd yn bodoli anghenion y person ifanc**

- Mewn 22 (95.7%) adolygiad cadarnhawyd bod y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc.

- Mewn 1 (4.3%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc.

**7 Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr a ddiweddarwyd cyn gadael gofal/ pen-blwydd yn 18 oed.**

- Adroddodd 3 (0.0%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr fod y Cynllun Llwybr wedi'i diweddaru cyn i'r person ifanc adael gofal/ troi'n ddeunaw oed.

**8 Gwerthuso - Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.**

## ADRAN 7

## GOFAL SEIBIANT BYR RHEOLAIDD

Ni chynhaliwyd adolygiad o ofal seibiant byr rheolaidd yn ystod y chwarter hwn.

## ADRAN 8

## GOFAL SEIBIANT BYR

Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau o ofal seibiant byr yn ystod y chwarter hwn.

| Tudalen | Math | Teitl Saesneg | Teitl Cymraeg |
|---|---|---|---|
| 4 | Tabl – Teitl | Number of Looked after children | Plant sy'n Derbyn Gofal |
| 5 | Tabl – Misoedd | Oct – Dec 2022<br>Jan – Mar 2023<br>April – June 2023<br>July – Sept 2023 | Hyd – Rhag 2022<br>Ion – Maw 2023<br>Ebr – Meh 2023<br>Gorff – Medi 2023 |
| 5 | Tabl – Teitl | Age and Gender of Ceredigion LAC Children Reviewed (88)<br>QTR 2 2023/2024<br>(39 Female – 49 Male) | Oed a Rhyw Plant sy'n Derbyn Gofal a adolygwyd yng Ngheredigion (88)<br>Chwarter 2 2023/2024<br>(39 Benyw – 70 Male) |
| | Tabl – Manylion rhyw ac oedran | Female<br>Male<br><br>under 12 months<br>aged 1 – 4<br>aged 5 – 9<br>aged 10 – 15<br>aged 16+ | Benyw<br>Gwryw<br><br>o dan 12 mis<br>1 – 4 oed<br>5 – 9 oed<br>10 – 15 oed<br>16+ oed |
| 7 | Tabl – Teitl | Placement Provision for Ceredigion LAC Children Reviewed<br>QTR 2 2023/2024 | Lleoliadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a adolygwyd yng Ngheredigion<br>Chwarter 2 2023/2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | In the County<br><br>Out of County | Yn y Sir<br><br>Tu allan i'r Sir |
| | Tabl – Lleoliadau | LA Foster Carers<br>Kinship Carers<br>IFA Carers<br><br>Placed with Parents<br>Other<br>Placement with Family<br>Residential<br>Adoption<br>Mother & Baby Residential<br>Parent & Baby IFA Foster Carers<br>Hospital<br><br>Supported Lodging/ Independent Living | Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol<br>Gofalwyr sy'n Berthnasau<br>Gofalwyr Asiantaeth Faethu Annibynnol<br>Lleoli â Rhieni<br>Arall<br>Lleoli â Theulu<br>Preswyl<br>Mabwysiadu<br>Preswyl Mamau a Babanod<br>Gofalwyr Maeth Asiantaeth Faethu…<br>Ysbyty<br>Llety â Chymorth/ Byw'n Annibynnol |
| 8 | Tabl - Teitl | Legal Status of the Children Having Been Reviewed<br>Qtr 2 2023/2024 | Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd<br><br>Chwarter 2 2023/2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Tabl – Manylion | Full Care Order<br>Interim Care Order<br>Placement Order<br>Section 76 | Gorchymyn Gofal Llawn<br>Gorchymyn Gofal Dros Dro<br>Gorchymyn Lleoli<br>Adran 76 |
| 8 | Tabl – Teitl | End of Care Reason | Y Rheswm Dros Adael Gofal |
| | Tabl – Rhesymau | Adoption<br>Returned home to family<br>When I am Ready<br>Revocation of Care Order<br>Supported Lodgings/ Independent Living/ Shared Lives | Mabwysiadu<br>Dychwelyd adref at y teulu<br>Pan dwi'n barod<br>Dirymu'r Gorchymyn Gofal<br>Llety â Chymorth/ Byw'n Annibynnol/ Cysylltu Bywydau |
| | Tabl - Misoedd | Oct – Dec 2022<br>Jan – Mar 2023<br>April – June 2023<br>July – Sept 2023 | Hyd – Rhag 2022<br>Ion – Maw 2023<br>Ebr – Meh 2023<br>Gorff – Medi 2023 |
| 9 | Tabl – Teitl | Statutory visits undertaken to LAC Children reviewed<br>Qtr 2 2023/2024 | Ymweliadau statudol â Phlant sy'n Derbyn Gofal a adolygwyd<br>Chwarter 2 2023/2024 |
| | Tabl – Misoedd | October – December 2022<br>January – March 2023<br>April – June 2023<br>July – Sept 2023 | Hydref – Rhagfyr 2022<br>Ionawr – Mawrth 2023<br>Ebrill – Mehefin 2023<br>Gorffennaf – Medi 2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10 | Tabl – Teitl | Ceredigion LAC Children having 1st Review with Care and Support Plan (Part 6) in place by date of 1st Placement<br><br>Qtr 2 2023/2024 | Plant sy'n Derbyn Gofal yng Ngheredigion ag Adolygiad Cyntaf gyda Chynllun a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad cyntaf<br>Chwarter 2 2023/2024 |
| | Tabl – Misoedd | Oct – Dec 2022<br>Jan – Mar 2023<br>April – June 2023<br>July – Sept 2023 | Hyd – Rhag 2022<br>Ion – Maw 2023<br>Ebrill – Meh 2023<br>Gorff – Medi 2023 |
| 11 | Tabl – Teitl | Ceredigion LAC Children having 2nd Reviews with a Permanency Plan in Place<br>Qtr 2 2023/2024 | Plant sy'n Derbyn Gofal yng Ngheredigion ag ail adolygiad gyda Chynllun Parhad wedi'i sefydlu<br>Chwarter 2 2023/2024 |
| | Tabl – Misoedd | Oct – Dec 2022<br>Jan – Mar 2023<br>April – June 2023<br>July – Sept 2023 | Hyd – Rhag 2022<br>Ion – Maw 2023<br>Ebrill – Meh 2023<br>Gorff – Medi 2023 |
| 11 | Tabl – Teitl | Length of time in care for Ceredigion LAC Children Reviewed<br><br>Qtr 2 2023/2024 | Faint o amser mewn gofal ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a adolygwyd yng Ngheredigion<br>Chwarter 2 2023/2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Tabl – Misoedd | Oct – Dec 2022<br>Jan – Mar 2023<br>April – June 2023<br>July – Sept 2023 | Hyd – Rhag 2022<br>Ion – Maw 2023<br>Ebrill – Meh 2023<br>Gorff – Medi 2023 |
| | Tabl – Oed | under 6 months<br>6 – 12 months<br>1 – 2 years<br>over 2 years | o dan 6 mis<br>6 – 12 mis<br>1 – 2 flynedd<br>dros 2 flynedd |
| 11 | Tabl – Teitl | Permanency Plans for Ceredigion LAC Children Reviewed at their second and subsequent reviews<br><br>Qtr 2 2023/ 2024 (77 children) | Cynlluniau Parhad ar gyfer Plant sy’n Derbyn Gofal a adolygwyd yng Ngheredigion yn eu hail adolygiad a’u hadolygiadau dilynol<br>Chwarter 2 2023/2024 (77 plentyn) |
| | Tabl - Lleoliadau | LTF<br>Kinship / Family Member<br>Twin Tracking<br>Residential<br>Placement with Parent<br>Adoption<br>Independent Living<br>Rehabilitation to Parents<br>Special Guardianship<br>Revocation of Care...<br>Shared Care | Maethu hirdymor<br>Perthnasau / aelod...<br>Olrhain dwbl<br>Preswyl<br>Lleoli â rhiant<br>Mabwysiadu<br>Byw’n annibynnol<br>Adsefydlu at rhieni<br>Gwarcheidwaeth...<br>Diddymu<br>Rhannu gofal |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Supported Living With... | Byw gyda Gofalwyr... |
| 12 | Tabl – Teitl | Eligible Ceredigion LAC Children Reviewed who have a Pathway Plan as required Qtr 2 2023/2024 | Plant sy'n Derbyn Gofal a adolygwyd yng Ngheredigion sydd â Chynllun Llwybr yn unol â'r gofynion Chwarter 2 2023/2024 |
| | Tabl – Misoedd | Oct – Dec 2022<br>Jan – Mar 2023<br>April – June 2023<br>July – Sept 2023 | Hyd – Rhag 2022<br>Ion – Maw 2023<br>Ebrill – Meh 2023<br>Gorff – Medi 2023 |
| 15 | Tabl – Teitl | Health Assessments for Ceredigion LAC Children Reviewed<br><br>Qtr 2 2023/2024 | Asesiadau Iechyd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a adolygwyd yng Ngheredigion Chwarter 2 2023/2024 |
| | Tabl – Misoedd | Oct – Dec 2022<br>Jan – Mar 2023<br>April – June 2023<br>July – Sept 2023 | Hyd – Rhag 2022<br>Ion – Maw 2023<br>Ebrill – Meh 2023<br>Gorff – Medi 2023 |
| 17 | Tabl – Misoedd | October – December 2022<br>January – March 2023<br>April – June 2023<br>July – Sept 2023 | Hydref – Rhagfyr 2022<br>Ionawr – Mawrth 2023<br>Ebrill – Mehefin – 2023<br>Gorffennaf – Medi 2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19 | Tabl – Teitl | Education Provision for Ceredigion LAC Children Reviewed<br><br>Qtr 2 2023/2024 | Darpariaeth addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a adolygwyd yng Ngheredigion Chwarter 2 2023/2024 |
| | Tabl – Manylion | Pre School<br>Primary School<br>Secondary School<br>PRU<br>Other Projects – Specialist Work Placement<br>College<br>Missing Education<br>NEET<br>Residential<br>EOTAS<br>School Leaver<br>Tutoring<br>Elected Home Education<br>Employed | Plant cyn-ysgol<br>Disgyblion ysgol gynradd<br>Disgyblion ysgol uwchradd<br>Uned Cyfeirio Disgyblion...<br>Prosiectau eraill - ...<br><br>Coleg<br>Colli addysg<br>Heb fod mewn addysg...<br>Preswyl<br>Addysg heblaw yn yr ysgol<br>Wedi gadael yr ysgol<br>Tiwtora<br>Addysg Ddewision yn y ...<br>Cyflogedig |